

At sylw pob rhiant sydd â phlant ym mlwyddyn 5 ar hyn o bryd.

Annwyl Rieni,

Bydd angen i chi wneud cais am le i'ch plentyn mewn ysgol uwchradd yn ystod ei dymor/ei thymor cyntaf ym mlwyddyn 6.

Eich cyfrifoldeb chi yw cyflwyno cais eich plentyn mewn pryd. Dechreuwch ymchwilio'n gynnar a byddwch yn barod.



Dros yr haf, dylech ddechrau ystyried pa ysgolion uwchradd yr hoffech wneud cais amdanynt. Rydym yn argymhell eich bod yn nodi 5 dewis (neu 3 os am addysg cyfrwng Cymraeg yr ydych yn gwneud cais). Mae gwybodaeth am yr ysgolion ar gael ar wefan y Cyngor: www.caerdydd.gov.uk

Sut mae'r broses ymgeisio'n gweithio

- Er mwyn i'ch plentyn gael lle mewn ysgol uwchradd, **RHAID** i chi gyflwyno cais.
- Rhaid i geisiadau gael eu gwneud ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/derbynuwchradd - gall eich Hyb lleol eich helpu gyda'r broses hon os hoffech ragor o arweiniad.
- Gallwch wneud cais o **ddydd Llun 25 Medi 2023 tan ddydd Llun 20 Tachwedd 2023** (y 'dyddiad cau').
- Os gwnewch gais ar ôl y dyddiad cau, efallai y bydd yr ysgolion rydych yn eu ffafrio eisoes yn llawn.
- Mae modd lanlwytho dogfennau ategol yr hoffech iddynt gael eu hystyried yn ystod eich cais.
- Os ydych am i'ch cais gael ei ystyried yn ôl meini prawf sy'n cynnwys sail feddygol, cymdeithasol neu fod wedi derbyn gofal yn flaenorol, mae'n hollbwysig eich bod yn darparu dogfennau ategol cyn y dyddiad cau

A wyddech chi?

- Nid yw byw yn y dalgylch neu'n agos at yr ysgol na brawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol yn gwarantu lle.
- Nid yw dewis un ysgol yn unig ar y ffurflen yn ei gwneud yn fwy tebygol y cewch le yn yr ysgol honno.
- Bob blwyddyn mae nifer o ysgolion yn denu mwy o geisiadau nag y mae lleoedd ar gael.
- Mae modd dysgu mwy am ysgol drwy fynd i'w nosweithiau agored, trefnu ymweliad â hi, edrych ar ei gwefan a darllen adroddiadau Estyn amdani.
- Nid oes gwarant y cewch le yn eich dewis cyntaf. Gallwch, a dylech, nodi pum dewis ysgol wrth ymgeisio. Ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, mae tair ysgol yn y ddinas. Rydym yn argymhell eich bod yn nodi'r tair, yn nhrefn eich dewis.

Gwybodaeth bwysig y dylech ei hystyried

- Mae pob ysgol uwchradd yng Nghaerdydd fel arfer yn cynnal nosweithiau agored i chi ymweld â nhw, nid yw rhai ysgolion wedi cadarnhau dyddiadau eto ar gyfer tymor yr hydref 2023. Rydym yn argymhell eich bod yn cysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol os nad yw dyddiad wedi'i restru ar y llyfryn derbyn i ysgolion 2024/25, byddant yn gallu eich cynghori ar eu trefniadau.
- Ymgyfarwyddwch â meini prawf gordanysgrifio pob ysgol. Rydym yn dilyn y meini prawf i benderfynu i bwy y gallwn gynnig lleoedd pan fo mwy o geisiadau nag y mae lleoedd mewn ysgol. Rydym yn defnyddio'r un meini prawf ar gyfer pob ysgol uwchradd gymunedol ond mae ysgolion Sefydledig a Ffydd yn defnyddio eu meini prawf eu hunain. Mae manylion am y rhain yn y llawlyfr Gwybodaeth i Rieni – gellir lawrlwytho hwn yn www.caerdydd.gov.uk/derbynuwchradd.
- Os ydych yn gwneud cais i Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf, Ysgol Uwchradd Corpus Christi, Ysgol Uwchradd Y Fair Ddihalog neu Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant, bydd angen i chi ymgeisio ar-lein A chwblhau a dychwelyd eu ffurflen ategol. Ar gyfer pob ysgol Ffydd arall yng Nghaerdydd, bydd angen i chi ymgeisio'n uniongyrchol i'r ysgol.

Gallai eich plentyn gerdded, beicio neu fynd ar fws i'r ysgol. Ydych chi wedi ystyried sut y bydd yn cyrraedd yr ysgol?

Newidiadau i brosesau derbyn i ysgolion uwchradd ar gyfer plant â datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA)

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2022-23, bydd disgyblion ym Mlwyddyn 6 sydd â datganiad AAA yn cael eu trosglwyddo i'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd. (I gael rhagor o wybodaeth am y broses hon gallwch siarad â'ch Cydlynnydd ADY yn yr ysgol, ewch i'r wefan cardiffeducationservices.co.uk neu cysylltwch â Llinell Cyngor a Chymorth ADY ar 029 2087 2731.)

Bydd angen i ddysgwyr Blwyddyn 6 sydd â datganiad wneud cais am le mewn ysgol brif ffrwd drwy'r broses derbyn i ysgolion uwchradd. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i ystyried a chytuno ar leoliadau ysgol ar gyfer y dysgwyr hynny y nodwyd bod angen lleoliad arbenigol arnynt yn ystod eu Hadolygiad Blynnyddol AAA Blwyddyn 5.

Os ydych am wybod mwy am wneud cais am le mewn ysgol uwchradd, ewch i www.caerdydd.gov.uk/derbynuwchradd neu ewch i'ch Hyb Lleol lle gall staff egluro mwy wrthoch chi am y broses dderbyn.